**I gymhwyso fel Nyrs Gofrestredig, mae angen gradd gan Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol) cymeradwy.**
**Gosodir y safon hon gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel y Corff Rheoleiddio.**
**Nid oes llwybrau Prentisiaeth Gradd i nyrsio ar gael yng Nghymru.**
**Ariennir yr holl lwybrau hyn yn llawn gan AaGIC a gwneir ceisiadau trwy UCAS.**

# Addysg Llawn Amser

### Rhaglen Gradd Nyrsio amser llawn

- Rhaglen 3 blynedd
- Mae'n cynnwys 50% o addysgu yn y brifysgol a 50% o ddysgu seiliedig ar leoliad clinigol
- Ar gael yn Aberystwyth, Bangor, Prifysgol De Cymru, Caerdydd, Glyndwr Wrecsam ac Abertawe

### Dysgu o Bell amser llawn ar gyfer y Rhaglen Gradd Nyrsio

- Rhaglen 3 blynedd
- Astudiwch ar-lein ar gyflymder sy'n gweithio i chi
- Ar gael ym Mhrifysgol Bangor

### Full time Post-Graduate Pre-Registration Nursing Programme

- Rhaglen 2 blynedd
- Mae'n cynnwys 50% o addysgu yn y brifysgol a 50% o ddysgu seiliedig ar leoliad clinigol
- Ar gael i unigolion sydd eisoes wedi ennill gradd gyntaf
- Ar gael yn Wrecsam Glyndwr, Caerdydd, Abertawe a Phrifysgol De Cymru

### Rhaglen Gradd Nyrsio Carlam amser llawn ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd

- Rhaglen 2 blynedd
- Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n gallu ymuno â'r cwrs gradd nyrsio 3 blynedd ym mlwyddyn 2 ar ôl cyflawni:
  - Tystysgrif mewn Astudiaethau Gofal Iechyd
  - Tystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gweithiwr Cefnogi Nyrsio Gofal Iechyd
  - Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Gofal Iechyd

### Dysgu Gwasgaredig amser llawn ar gyfer y Rhaglen Gradd Nyrsio

- Rhaglen 3 blynedd
- Strategaeth sy'n cefnogi myfyrwyr i ennill gradd trwy ddull dysgu cyfunol

### Dysgu o Bell Ar-lein Dychwelyd i Ymarfer

- Ar gyfer cyn nyrsys cymwys
- Cwrs seiliedig ar ymarfer i loywi sgiliau a gwybodaeth
- Rhaid dangos cofrestriad blaenorol neu gyfredol gyda'r NMC
- Ar gael ym Mhrifysgol Bangor

# Llwybr Cyflogedig

### Rhan amser/Rhaglen Gradd Nyrsio Hyblyg

- Hyd at 4 blynedd rhan amser neu hyblyg
- Ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd presennol a gyflogir o fewn GIG Cymr
- Ar gael yn Wrecsam Glyndwr, Bangor, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe

**Am ragor o wybodaeth a gofynion mynediad:**

- https://heiw.nhs.wales
- https://www.nmc.org.uk
- Gwefannau'r Brifysgol